Archwilio Cymru
Audit Wales

# Pennu Amcanion Llesiant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4793A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in Englishh.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant | 4 |
| Cynnal ein harchwiliad yn y Cyngor | 5 |
| Sut a phryd y gwnaeth y Cyngor bennu ei amcanion llesiant | 5 |
| Yr hyn a ganfuom | 6 |
| Argymhellion | 11 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a’r hyn yr oeddem yn chwilio amdano | 12 |

# Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny bennu a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf eu cyfraniad at gyrraedd pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf[1]. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant[2]. Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, hyd at ddechrau 2025[3].

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'. I gyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio, ac atal[4].

4 Fe wnaethom ddylunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut y gallai da edrych.

5 Wrth ddylunio ein dull, fe wnaethom ystyried beth allem yn rhesymol ei ddisgwyl gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus fod yn gyfarwydd bellach â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a bod yn ceisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn derbyn bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi eu gwersi ar waith a sut y gallant wella yn y dyfodol.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau un flwyddyn cyn un o etholiadau'r Senedd ac yn diweddu un flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad canlynol y Senedd.

[4] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

6 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- egluro sut y gwnaeth y Cyngor gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy gydol y broses o bennu ei amcanion llesiant;
- darparu sicrwydd ynghylch y cwestiwn i ba raddau y gwnaeth y Cyngor gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant; ac
- adnabod cyfleoedd i’r Cyngor wreiddio’r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

7 Roeddem yn amcanu at ateb y cwestiwn ar y cyfan, ‘i ba raddau y mae’r Cyngor wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd’. Fe wnaethom hyn trwy archwilio’r cwestiynau canlynol:

- A gafodd y broses a sefydlodd y Cyngor i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw’r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw’r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut y mae’n cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?

8 Fe wnaethom drafod amseriad yr archwiliad gyda’r Cyngor, ac fe wnaethom deilwra’r modd y cyflawnwyd yr archwiliad i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol.

9 Fe wnaethom gasglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:

- adolygu dogfennau allweddol; a
- chynnal nifer fach o gyfweliadau yn ychwanegol at yr uchod.

# Sut a phryd y gwnaeth y Cyngor bennu ei amcanion llesiant

10 Dechreuodd y Cyngor waith ar bennu amcanion llesiant newydd yn ystod 2023 ac yna fe gyhoeddodd ei amcanion newydd ym mis Ebrill 2024. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi’r amcanion llesiant hynny.

11 Fe gyhoeddodd y Cyngor ei amcanion llesiant yn ei Gynllun Corfforaethol, a oedd yn cynnwys yr elfennau a oedd yn ofynnol ar gyfer ei ddatganiad llesiant, fel sy’n ofynnol gan y Ddeddf. Gellir gweld Cynllun Corfforaethol 2024-2030 ar wefan y Cyngor[5]. Mae’r elfennau hyn yn ymwneud â sut y mae amcanion yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, gan ymgorffori’r egwyddor datblygu cynaliadwy, sut y

[5] ‘Gweithio gyda'n Cymunedau', Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf 2024-2030, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024

maent yn cynnwys amrywiaeth y boblogaeth leol a sut y bydd yn darparu adnoddau ac yn monitro cynnydd.

**Arddangosyn 1: Amcanion llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) 2024-2030**

| |
|---|
| **1. Pobl a Chymunedau –** Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau RhCT i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn. |
| **2. Gwaith a Busnes –** Helpu i gryfhau a thyfu economi RhCT. |
| **3. Byd Natur a'r Amgylchedd –** RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur. |
| **4. Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg –** Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT. |

# Yr hyn a ganfuom

## Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant ac wedi ystyried sut y bydd yn darparu adnoddau ar eu cyfer dros y tymor canolig, ond mae cyfle i wella'r modd y mae deilliannau tymor hwy'n cael eu monitro

### Y broses ar gyfer pennu'r amcanion llesiant

#### Y broses gynllunio a'r sylfaen dystiolaeth

12 Tynnodd y Cyngor ar amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth bennu ei amcanion llesiant, i gael dealltwriaeth dda am anghenion, risgiau a chyfleoedd cyfredol. Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i ffynonellau data mewnol ac allanol, ymgyngoriadau blaenorol ac fe wnaeth waith dadansoddi helaeth i adnabod ac ymdrin â bylchau rhwng strategaethau presennol a'r amcanion arfaethedig.

13 Fe adolygodd y Cyngor ystod o setiau data o ffynonellau gan gynnwys gwybodaeth o'r cyfrifiad, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol[6], Nomis, Llywodraeth Cymru, a ffynonellau yn y trydydd sector. Mae'r Cyngor wedi dechrau dyfnhau ei ddealltwriaeth am anghenion y boblogaeth mewn meysydd megis iechyd, trwy dynnu ar ymchwil i benderfynyddion iechyd[7], mewn cydweithrediad gyda phartneriaid ym myd iechyd ac yn y byd academaidd, i gryfhau ei sylfaen dystiolaeth. Mae cyfuno data allanol â'i ddata mewnol ei hun wedi galluogi'r Cyngor i wella ei ddealltwriaeth am anghenion a heriau yn y dyfodol. Fe wnaeth y Cyngor ddefnydd effeithiol o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel offeryn allweddol i ddadansoddi data mewn modd ystyrlon i ganfod sut y gallai pob amcan effeithio ar ystod amrywiol o grwpiau.

14 Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i ddata partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus wrth ddatblygu ei amcanion llesiant ond gallai ddefnyddio'r data hwn yn fwy. Mae hyn yn cynnwys gwneud mwy o'r asesiad rhanbarthol o anghenion y boblogaeth ac asesiadau llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chronni ei sylfaen dystiolaeth ar gyfer byd natur a'r amgylchedd, yn enwedig data bioamrywiaeth.

15 Fodd bynnag, canfuom fod llai o ddefnydd o ddata mewn perthynas ag amcan llesiant y Cyngor sy'n ymwneud â diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. Ceir cyfleoedd i wella rhagolygon data ymhellach ar lefel leol yn y maes hwn i feintioli heriau tymor hwy

16 Fe wnaeth y Cyngor ystyried y risgiau a nodir yn ei gofrestr risgiau corfforaethol pan benderfynodd ar ei amcanion llesiant. Ceir cysondeb cryf o hyd rhwng risgiau strategol parhaus ac amcanion llesiant.

17 Fe wnaeth y Cyngor ystyried ei berfformiad yn erbyn ei amcanion llesiant blaenorol yn ystod y cam cynllunio ac fel rhan o'i hunanasesiad yn 2022-23. Fodd bynnag, er bod y Cyngor wedi myfyrio ynghylch ei gynnydd, canfuom y gallai'r Cyngor ddatblygu gwaith i werthuso'r deilliannau ymhellach. Byddai darparu eglurder pellach ar y cynnydd cyffredinol yn erbyn pob un o'r amcanion llesiant yn rhoi dealltwriaeth fwy eglur i'r Cyngor a'r cyhoedd am faint o waith sydd i'w wneud i gwblhau eu hamcanion. Byddai hyn yn helpu i oleuo penderfyniadau'r Cyngor ynghylch pennu amcanion llesiant a'r modd y mae'n dyrannu adnoddau yn y dyfodol.

## Ymgynghori a chynnwys

18 Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adborth o ymgyngoriadau blaenorol wrth ddatblygu ei amcanion llesiant newydd. Roedd hyn yn cynnwys ymgyngoriadau ynghylch pennu'r gyllideb, y cynllun datblygu lleol, Strategaeth Perygl Llifogydd y Cyngor ac asesiad llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg. Gweithredodd y safbwyntiau hyn fel y sail ar gyfer ei waith ymgynghori pellach.

[6] Llywodraeth Cymru, Tueddiadau'r Dyfodol: 2021, Rhagfyr 2021

[7] Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ymchwil i Benderfynyddion Iechyd

19 Fe gyflawnodd y Cyngor weithgareddau helaeth ac ystyrlon i gynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant. Roedd dau gam i'r ymgysylltu hwn, gyda'r cyntaf yn dechrau ym mis Medi 2023 gan ddefnyddio platfformau ymgysylltu digidol. Dechreuodd yr ail gam ym mis Rhagfyr 2023, a hwnnw'n ymgorffori ymgysylltu cymunedol ochr yn ochr ag ymgysylltu digidol pellach unwaith yr oedd amcanion wedi datblygu ymhellach.

20 Yn allanol, roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â busnesau, y trydydd sector, cynghorau tref a chymuned, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a fforymau lleol eraill. Gan adeiladu ar waith ymgyngoriadau blaenorol, fe wnaeth y Cyngor ymdrechion i gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sicrhau ei fod yn ystyried ystod amrywiol o safbwyntiau. Rhoddwyd pwyslais penodol ar gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, er bod y Cyngor wedi cydnabod na wnaeth yr holl grwpiau gyfrannu, gyda llai o adborth yn dod i law o grwpiau hil ac anabledd.

21 Cafodd y Cyngor gyfarfodydd rheolaidd gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Undebau Llafur hefyd, a gafodd y cyfle i fwydo eu barn yn ôl yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr.

22 Roedd lleisiau mewnol yn agwedd bwysig ar gynllunio ei amcanion llesiant i'r Cyngor hefyd. Cynhaliwyd gweithdai gyda Phrif Swyddogion, gan eu galluogi i gael mewnbwn i'r amcanion llesiant yn seiliedig ar eu profiadau hwy yn eu priod wasanaethau. Fe wnaeth arolwg blynyddol o staff alluogi staff i fwydo eu barn i mewn.

23 Gan ddefnyddio sianel ymgysylltu digidol presennol trwy'r dudalen we 'Dewch i Siarad am beth sy'n bwysig i chi', rhoddodd y Cyngor ddiweddariadau cyson i drigolion am holl gamau ymgynghori a chylchoedd oes cynlluniau cyfredol, gan ddefnyddio arolygon barn cyflym a gofyn am syniadau manylach. Mae gwybodaeth ar y dudalen yn glir ac yn rheoli disgwyliadau ynghylch cyfyngiadau cyllidebol. Roedd 87% o'r ymatebwyr i'r prif ymgynghoriad ynghylch amcanion drafft yn meddwl bod meysydd ffocws yn 'iawn fwy neu lai' neu 'yn gywir ond gellid eu gwella' gan ddangos cefnogaeth gyhoeddus i'r cynllun .

24 Fe ymgorfforodd y Cyngor adborth rhanddeiliaid yn ei amcanion llesiant drafft a, thrwy ymgynghori pellach, fe wnaeth ddefnydd effeithiol o weithgarwch cynnwys i fireinio cynigion ymhellach. Mae'r holl amcanion yn y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys crynodeb sy'n dwyn y teitl 'Beth sy'n bwysig', sy'n dangos sut y maent yn cysylltu mewnbwn dinasyddion ag amcanion unigol. Un enghraifft o wreiddio adborth yw ailenwi amcan i gynnwys y Gymraeg yn seiliedig ar adborth penodol gan grwpiau Cymraeg.

## Cynllunio i wella llesiant

25 Mae'r Cyngor wedi pennu amcanion llesiant uchelgeisiol sy'n ymestyn dros ffrâm amser hwy na'r cynllun pedair blynedd blaenorol sef dros chwe blynedd. Mae'r Cyngor wedi bod yn glir bod arno eisiau dal i fod yn uchelgeisiol i'w alluogi i ymateb i heriau tymor hwy fel newid hinsawdd. Yn ei Gynllun Corfforaethol, mae

wedi nodi deilliannau lefel uchel y mae'r Cyngor yn disgwyl eu gweld dros y tymor hwy (2030).

26 Mae pedwar amcan llesiant y Cyngor yn cyd-fynd yn agos â'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyfeirio at ddeddfwriaeth ac ysgogwyr polisi cenedlaethol a helpodd i oleuo pob amcan. Fe ychwanegodd y Cyngor 'Diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg' fel amcan llesiant unigol mewn ymateb i adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad ynghylch yr amcanion llesiant. Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, sy'n amcanu at greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

27 Wrth gynllunio ei amcanion llesiant, fe sicrhaodd y Cyngor fod ei amcanion ei hun yn ategu amcanion partneriaethau ehangach, fel sy'n amlwg gyda'r gydberthynas gref â chynllun llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.

28 Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i amcanion llesiant cynghorau cyfagos ar lefel uchel, gyda pheth ystyriaeth gyfyngedig i sut y gallent gyd-fynd â'i gilydd. Byddai cydweithio pellach gyda phartneriaid wrth bennu amcanion llesiant yn helpu i adnabod cyfleoedd pellach i gydweithio ac yn galluogi'r Cyngor i gael dealltwriaeth fanylach am sut y gallai gweithgarwch partneriaid effeithio ar roi ei amcanion ei hun ar waith. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dwyn ynghyd amcanion llesiant o bob rhan o Gymru fel adnodd i helpu cyrff i wneud hyn.

29 Mae'r Cyngor yn ymwybodol sut y mae ei amcanion llesiant yn effeithio ar ei gilydd, gyda llawer o enghreifftiau drwy'r Cynllun Corfforaethol o gamau gweithredu sy'n drawsbynciol. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau rhwng ei amcan Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg ac amcanion eraill.

## Cynlluniau i gyflawni'r amcanion llesiant

30 Mae'r Cyngor wedi dangos sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer agweddau ar ei amcanion llesiant dros y tymor byr a chanolig i gwmpasu cyfnod y cynllun. Mae ganddo strategaeth ariannol tymor canolig sy'n cyd-fynd â'i amcanion a chronfeydd wrth gefn wedi eu neilltuo sydd ar gael ar gyfer ffrydiau gwaith sy'n ategu amcanion. Mae adroddiadau perfformiad chwarterol yn cynnwys adran sy'n dangos sut y mae blaenoriaethau buddsoddi'n cysylltu â phob amcan, diweddariadau ar gynnydd yn erbyn pob maes buddsoddi a gwerth y buddsoddiad. Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn meysydd i helpu i gyflawni ei amcanion llesiant.

31 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod risgiau sylweddol mewn perthynas ag adnoddau ariannol dros y tymor hwy a allai achosi oedi o ran cyflawni ei amcanion llesiant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o'r Cyngor yn buddsoddi mewn gweithgareddau ataliol tymor hwy, megis yn ei gyfleusterau hamdden a gweithgareddau sydd wedi eu bwriadu i helpu i ostwng cyfraddau troseddu a gwella lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion.

32 Mae gwybodaeth am sut y mae'r Cyngor yn bwriadu darparu adnoddau ar gyfer ei amcan Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg yn fwy cyfyngedig. Er enghraifft, mae

data cyfyngedig ar gael yn yr adroddiad chwarterol ar berfformiad i ddangos lefel y buddsoddiad arfaethedig o'i gymharu ag amcanion eraill.

## Monitro'r amcanion llesiant

33 Mae'r Cynllun Corfforaethol a gyhoeddwyd yn dangos deilliannau lefel uchel y mae'r Cyngor yn disgwyl eu gweld dros y tymor hwy (2030). Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun yn rheolaidd trwy adroddiadau chwarterol ar berfformiad a hunanasesiadau blynyddol. Ar gyfer pob amcan, mae'r adroddiad ar berfformiad yn dangos gwaith a wnaed yn erbyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy gyda diweddariad manylach ar gynnydd sy'n cynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol, yn erbyn pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol, dan y pennawd 'deilliannau, cynnydd a heriau'. Ategir pob amcan gan gynllun gweithredu cynhwysfawr, gyda phob un yn dangos y maes blaenoriaeth, camau cyflawni, cerrig milltir, is-gamau gweithredu, dyddiad cyflawni, swyddog cyfrifol, cynnydd yn erbyn y targed (CAG) a chrynodeb o'r cynnydd. Mae'r mwyafrif o'r camau gweithredu'n dangos bod y Cyngor ar y trywydd iawn i'w cyflawni yn unol â'r targed.

34 Cynhelir sesiynau herio ar Hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae'r rhain yn bwydo i mewn i gynlluniau cyflawni ar gyfer y dyfodol. Mae mesurau perfformiad cyfredol yn galluogi'r Cyngor i asesu cynnydd camau gweithredu unigol yn y tymor byr ond ceir llai o sylwebaeth ar faint o gynnydd a wnaed ar y cyfan i gyflawni'r amcanion a beth yw'r effaith ar y cyfan. Yn ein Hadolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol[8] fe wnaethom argymell y dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn deall yr effaith y bydd ei raglenni trawsnewid yn ei chael gyda'i gilydd ar y bwlch yn ei gyllideb dros y tymor canolig a hir; ac y dylai gryfhau'r modd y mae'n gwerthuso ac yn adrodd ar yr effaith y mae rhaglenni a gyflawnwyd wedi ei chael ar ei gyllideb, cymunedau lleol a chyflawni ei amcanion corfforaethol.

35 Mae'r Cyngor wedi ceisio dysgu gwersi o gylchoedd pennu amcanion llesiant blaenorol trwy ddadansoddiad gwell o'r bylchau, ailalinio blaenoriaethau strategol ag amcanion corfforaethol, ac mae wedi gwella sut y mae'n gwreiddio'r rhain yn ei fframwaith monitro perfformiad. Fe wnaeth y Cyngor hefyd adnabod cyfleoedd i gryfhau gweithgarwch cynnwys trwy gael cyswllt dilynol â sefydliadau na wnaethant ymgysylltu ag ymgyngoriadau i archwilio'r rhesymau dros hyn.

[8] Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol, Archwilio Cymru, Awst 2024

# Argymhellion

A1 Canfuom fod cyfleoedd i'r Cyngor adeiladu ar y cynnydd hyd yma wrth fonitro ei amcanion llesiant. Dylai'r Cyngor:

- werthuso'r cynnydd cyffredinol yn erbyn pob amcan llesiant i helpu i hysbysu'r cyhoedd ynghylch lefel y cynnydd yn erbyn pob amcan llesiant, a helpu i oleuo'r broses o bennu amcanion yn y dyfodol.

A2 Canfuom fod cyfleoedd i wella data ac aliniad yr amcan Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg. Dylai'r Cyngor:

- adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth sy'n ategu'r amcan trwy ddefnyddio'r holl setiau data sydd ar gael; a
- chwilio am feysydd eraill lle ceir aliniad ag amcanion llesiant eraill i gynyddu i'r eithaf werth yr amcan Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg i amcanion eraill.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i roi arweiniad i'n proses o gasglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u defnyddio'n flaenorol yn ein harchwiliadau o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac a oleuwyd gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set enghreifftiol o nodweddion sy'n disgrifio sut allai da edrych.

| |
|---|
| **I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?** |
| **Cynllunio: A gafodd y broses a sefydlodd y corff i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?** |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff wedi defnyddio data a chudd-wybodaeth arall i ddeall angen, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?** | • Mae gan y corff asesiad eglur a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i oleuo dealltwriaeth y corff am y 'sefyllfa fel y mae' / angen byrdymor.<br>• Mae'r corff wedi pennu amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda am angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae hyn yn debygol o ddod o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>– Asesiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o'r boblogaeth<br>– Canlyniadau ymarferion cynnwys/ymgynghori lleol<br>– Monitro gwasanaethau a chwynion am wasanaethau<br>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol<br>– Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR) ac Asesiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau er mwyn iddo allu ymdrin â chylchoedd negyddol a heriau rhwng y cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cynnwys i helpu i ddethol ei amcanion llesiant. Mae'r gweithgarwch cynnwys hwnnw – boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae cynnwys yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u bwriadu i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u bwriadu i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig am sut y mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar yr hyn/yn berthnasol i'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i gydweithio. |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff wedi dylunio'r amcanion i gyflawni manteision tymor hwy, ynghyd â diwallu anghenion byrdymor?** | • Mae'r corff wedi pennu amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u bwriadu i lywio gweithgarwch ar draws y sefydliad.<br>• Mae'r amcanion wedi'u bwriadu i ddiwallu anghenion yn y tymor byr a hwy. Lle pennwyd amcanion dros ffrâm amser fer a chanolig, maent wedi'u pennu yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |
| **Darparu adnoddau a chyflawni: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer yr amcanion llesiant?** | • Dyrannwyd adnoddau i sicrhau bod yr amcanion yn gallu cael eu cyflawni dros y tymor byr a chanolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau a risgiau tymor hwy, a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i gyflawni manteision ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion hwythau?** | • Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a threfniadau cydweithredol i wneud yn siŵr y gall wireddu uchelgeisiau trawsbynciol. |
| **Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?** | |
| **A yw'r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?** | • Mae mesurau perfformiad wedi'u bwriadu i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. trwy ganolbwyntio ar ddeilliannau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac yn cyflawni manteision lluosog (gan gynnwys rhai ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Ceir 'edefyn aur' a fydd yn galluogi'r corff i adrodd yn eglur a thryloyw ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion. |

| | |
|---|---|
| **A yw'r corff yn ceisio dysgu o sut a gwella sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon a ffordd sy'n cael effaith gref.<br>• Mae'r corff wedi dysgu o bennu amcanion llesiant blaenorol ac o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.<br>• Mae'r corff wedi neu'n bwriadu myfyrio ynghylch sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o ran pennu amcanion llesiant. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.